

Ali Bulman  
Cyfarwyddwr Corfforaethol Plant ac Oedolion  
Cyngor Sir Powys  
Neuadd y Sir  
Llandrindod  
Powys  
LD1 5LG

[Ali.Bulman@powys.gov.uk](mailto:Ali.Bulman@powys.gov.uk)

Dyddiad / Date: 29 Hydref 2020

Annwyl Ms Bulman

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) Gynhadledd Gwella ar 9 Hydref 2020, ac yn bresennol roedd yr uwch-dîm arwain o Wasanaethau Cymdeithasol Powys, Arweinydd y Cyngor a deiliaid portffolio. Mae'r Gynhadledd Gwella yn un elfen yng nghontinwmm AGC o weithgarwch adolygu perfformiad a gynhelir o dan adrannau 57 a 58 o'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol ac yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Diben y Gynhadledd Gwella yw i AGC geisio sicrwydd bod yr awdurdod lleol, drwy ei uwch-swyddogion a'i aelodau etholedig, yn cydnabod ac yn llwyr ddeall y pryderon sydd gan AGC am ei berfformiad, ei ddarpariaeth neu ei arweinyddiaeth ac yn gallu dangos bod gwelliannau wedi cael eu gwneud. Mae AGC yn ceisio sicrwydd bod gan yr awdurdod lleol gynlluniau priodol i barhau i wella a bod ganddo'r adnoddau a'r gallu i gyflawni ei gynlluniau.

Clywodd y cyfarfod gan gynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, Addysg, Heddlu Dyfed-Powys, Archwilio Cymru a'r Bwrdd Gwella a Sicrwydd.

### Cefndir

Arolygodd AGC wasanaethau plant ym mis Gorffennaf 2017 a nodwyd methiannau difrifol a sylweddol. Gwelsom fod rhai plant yn parhau i wynebu risg o niwed oherwydd gofal ac ymatebion diogelu gwael gan Gyngor Sir Powys. Gwnaethom nodi bod diffyg goruchwyliaeth gorfforaethol gan y cyngor a diffyg cymorth ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn ffactor sylweddol yn y perfformiad gwael hwn.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)  
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru  
Sarn Mynach  
Cyffordd Llandudno  
Conwy  
LL31 9RZ  
[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

☎ 0300 790 0126  
✉ [ciw@gov.wales](mailto:ciw@gov.wales)

Care Inspectorate Wales (CIW)  
Welsh Government Offices  
Sarn Mynach  
Llandudno Junction  
Conwy  
LL31 9RZ  
[www.careinspectorate.wales](http://www.careinspectorate.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwnaethom arolygu gwasanaethau oedolion ym mis Ionawr 2018 a nodwyd methiannau difrifol. Gwnaethom nodi'r un diffyg cymorth a dealltwriaeth yn y cyngor ar gyfer gwasanaethau oedolion ac amrywiaeth o achosion o oedi a diffygion difrifol ac annerbyniol yn yr ymateb i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt.

Rhoddodd AGC Gyngor Sir Powys o dan drefniadau monitro uwch. Datblygodd y cyngor gynlluniau gwella a sefydlwyd Bwrdd Gwella a Sicrwydd i oruchwylio cynnydd.

Ers y cyfnod hwn, mae AGC wedi ymgymryd â naw darn o weithgarwch monitro yn yr awdurdod lleol, arolygiad dilynol o wasanaethau plant ym mis Hydref 2018 ac Adolygiad Sicrwydd Dros Dro o wasanaethau oedolion ym mis Mawrth 2020. Yn fwy diweddar, gwnaethom gynnal Arolygiad Gwerthuso Perfformiad ym mis Medi 2020.

Roedd y gweithgarwch monitro yn canolbwyntio ar feysydd penodol o ddarparu gwasanaeth. Gwnaethom gyfweld â defnyddwyr gwasanaethau, rheolwyr a staff ac asiantaethau eraill. Gwnaethom ddarllen ffeiliau achos a dogfennaeth arall. Gwnaethom archwilio cynnydd mewn perthynas â'r canlynol:

- gofal a chymorth – gwasanaethau plant – Mawrth 2018
- diogelu a sicrhau ansawdd – gwasanaethau oedolion a phlant – Gorffennaf 2018
- gofal a chymorth – gwasanaethau oedolion – Rhagfyr 2018
- diogelu – gwasanaethau plant – Chwefror 2019
- gwasanaeth cyswllt cychwynnol – gwasanaethau oedolion – Mai 2019
- cymorth i'r rhai sy'n gadael gofal – gwasanaethau plant – Mehefin 2019
- gofal a chymorth – gwasanaethau oedolion – Medi 2019
- plant mewn achosion llys teuluol – gwasanaethau plant – Tachwedd 2019
- ailalluogi – gwasanaethau oedolion – Ionawr 2020

Gwnaethom gynnal cyswllt rheolaidd ag uwch-reolwyr yn yr awdurdod lleol drwy gydol y cyfnod hwn a chawsom ddata perfformiad. Er nad oeddem wedi llwyddo i gwblhau gwaith monitro pellach ym mis Mawrth, oherwydd COVID-19, gwnaethom barhau â chyfarfodydd ar-lein rheolaidd â Phenaeithiaid Gwasanaethau drwy'r cyfnod pan oedd y pandemig yn ei anterth.

### **Gwasanaethau plant**

Nododd yr arolygiad dilynol yn 2018 oruchwyliaeth gorfforaethol well o wasanaethau plant, ond roedd yn parhau i nodi diffyg gweledigaeth a rennir ar gyfer gwasanaethau plant neu ddull cydlynus o'r ffordd y gellid cyflawni hyn. Ers y cyfnod hwn, mae'r awdurdod lleol wedi buddsoddi mewn gwaith hyfforddi a datblygu ac mae wedi cyflwyno fframwaith cydnabyddedig ym mhob un o'i wasanaethau. Mae wedi sefydlu timau cymorth cynnar ac ymylon gofal i gefnogi plant o fewn eu teuluoedd ac atal anghenion rhag gwaethygu. Roedd cymorth i'r rhai sy'n gadael gofal yn brinder nodedig mewn gwasanaethau plant yn flaenorol, ond gwnaethom nodi gwelliannau sylweddol o'n gwaith monitro ac rydym yn ymwybodol o gynlluniau ar gyfer datblygiadau pellach ynglŷn â llety.

Mae uwch-reolwyr yn ymrwymedig i wella trefniadau diogelu ar gyfer plant sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol, ac rydym bellach wedi cael sicrwydd o systemau ac ymarfer mwy effeithiol, er bod hyn wedi cymryd mwy o amser i'w gyflawni na'r disgwyl. Mae adolygiad o ddata perfformiad yn dangos bod gwelliannau o ran amseroldeb asesiadau ac

ymweliadau â phlant sydd â phrofiad o ofal a'r rhai sydd ar y gofrestr amddiffyn plant wedi cael eu cynnal dros sawl mis neu fwy.

### **Gwasanaethau oedolion**

Rydym wedi nodi gwelliannau cynyddrannol i'r gofal a'r cymorth i oedolion ym Mhowys ym mhob rhan o'n gwaith monitro. Er enghraifft, gwnaeth datblygu trefniadau sicrhau ansawdd a rhoi sylw i ddata perfformiad helpu gallu rheolwyr i adolygu amseroedd aros. Mae amseroedd ymateb o ran diogelu yn amlwg yn well.

Mae 'Cymorth', y gwasanaeth cyswllt cychwynnol, yn welliant sylweddol o gymharu â'r gwasanaeth blaenorol (PUP) o ran ymateb ac ansawdd y wybodaeth a'r cyngor a roddir i alwyr. Mae cydberthnasau gwaith gwell â'r trydydd sector wedi galluogi cymorth gwell i bobl yn y gymuned heb ymyriadau ffurfiol gan weithwyr cymdeithasol. Gwnaethom nodi symud i waith yn seiliedig ar gryfder a diwylliant cynyddol o roi mwy o sylw i ddymuniadau'r unigolyn sy'n cael ei asesu neu sy'n cael gofal a chymorth.

Cymerodd fwy o amser i gyflawni rhai gwelliannau, megis adolygiadau amserol o gynlluniau gofal a chymorth a mwy o ddarpariaeth gofal cartref, a dylid parhau i fonitro hyn yn ofalus. Cymerodd fwy o amser hefyd i nodi gwelliannau ym maes cydweithio â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, a chafodd y cynnydd cychwynnol o ran cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion ac ailalluogi a nodwyd ym mis Ionawr 2020 ei adolygu eto yn yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad diweddar.

### **Arolygiad Gwerthuso Perfformiad**

Ar y cyfan, gwelsom fod yr awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd sylweddol ers ein harolygiadau diwethaf. Gall pobl ym Mhowys fod yn dawel eu meddwl bod yr awdurdod lleol yn ymrwymedig i sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed a'u bod yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Roedd cydbaroddrwydd i ganolbwyntio ar atal fel modd o sicrhau bod cymunedau a gwasanaethau yn gynaliadwy at y dyfodol. Mae uwch-reolwyr ac aelodau arweiniol wedi codi'r safonau a ddisgwylir ym maes gofal cymdeithasol.

Mae'n ymddangos bod y rheidrwydd i weithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn ystod COVID-19 wedi cyflymu cynnydd ym maes cydweithio ac wedi tynnu sylw pobl at fuddiannau gweithio'n agosach, yn enwedig o ran cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion ac ailalluogi. Gwelsom hefyd fod cysylltiadau sy'n gwella â thai ac addysg yn cefnogi'r agenda gwasanaethau cymdeithasol ym mhob rhan o'r awdurdod lleol. Mewn gwasanaethau plant, gallem weld effaith gwasanaethau help cynnar a gwnaethom siarad â theuluoedd a allai fynegi'r help roeddent wedi'i gael i aros gyda'i gilydd a datrys y problemau a oedd wedi arwain at yr atgyfeiriad. Mewn gwasanaethau oedolion, mae'r tîm pontio newydd yn darparu gofal cartref i gefnogi'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty ac mae'n pontio'r bwloch rhwng ymyriadau byrdymor a gofal tymor hwy.

### **Cynhadledd Gwella**

Darparodd cydweithwyr o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, Addysg, Heddlu Dyfed-Powys, Archwilio Cymru a'r Bwrdd Gwella a Sicrwydd eu barn. Rhoddodd hyn ddarlun ehangach i ni o'r ffordd y mae Cyngor Sir Powys yn datblygu ymarfer, goruchwyliaeth gorfforaethol, craffu a gweithio mewn partneriaeth.

Nodwn ymrwymiad Arweinydd y Cyngor a'r deiliaid portffolio i barhau i ddatblygu gwasanaethau a chynnal y gwelliannau a wnaed. Yn dilyn hanes o newid trefniadau uwch-

arwain, mae tîm uwch-reoli sefydlog bellach yn ei le ar draws y gwasanaethau cymdeithasol ac mae swyddi rheolwyr canol allweddol wedi cael eu llenwi.

Disgrifiodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ddatblygiad cydberthnasau gwaith cadarnhaol cryfach, sy'n cynnwys herio mewn ffordd adeiladol a rhannu nodau. Disgrifiodd yr heddlu waith gwell mewn partneriaeth. Cynhaliwyd gweithgarwch diogelu drwy'r don gyntaf o COVID-19. Mae gwaith ymgysylltu gwell rhwng Cyngor Sir Powys a'r bwrdd diogelu rhanbarthol, ac mae'r heddlu bellach yn ystyried bod y systemau o amgylch plant sydd mewn perygl o gamfanteisio yn gadarn. Disgrifiodd cydweithwyr addysg waith ar y cyd adeiladol â gwasanaethau plant er mwyn gwella cymorth i blant sy'n agored i niwed. Roedd consensws bod gweithio mewn partneriaeth gydag uwch-reolwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol yn seiliedig ar lefelau uchel o onestrwydd a thryloywder.

Mae staff rheng flaen yn parhau i gael sesiynau goruchwylio rheolaidd i arwain a chefnogi eu hymarfer, ac mae hyfforddiant perthnasol ar gael iddynt. Mae recriwtio yn parhau i fod yn her mewn gwasanaethau plant, er gwaethaf ymdrechion gan yr awdurdod lleol. Mae Cyngor Sir Powys wedi datblygu data perfformiad ac adroddiadau sicrhau ansawdd da iawn, sy'n galluogi swyddogion a chynghorwyr i weld ble mae cynnydd wedi cael ei wneud neu ei gynnal a nodi meysydd i'w datblygu ymhellach. Ar y cyd â modelau gwaith cymdeithasol yn seiliedig ar gryfder, mae'r dull clir a strwythuredig hwn yn sail i ddiwylliant o staff a rheolwyr optimistaidd. Mae hyn yn newid cadarnhaol sylweddol ers ein harolygiadau llawn diwethaf.

Roedd consensws yn y Gynhadledd Gwella fod yr uwch-reolwyr yn gwybod beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei wella ymhellach.

Bydd yr ychydig flynyddoedd nesaf yn dod â heriau ychwanegol i Gyngor Sir Powys i gynnal y gwelliannau a wnaed a datblygu ymhellach, yn wyneb ymatebion tymor hwy i COVID-19 a phwysau cyllidebol. Mae'r Arweinydd yn rhoi sicrwydd o ymrwymiad ei chabinet i'r cynlluniau trawsnewid.

Rydym yn ymwybodol iawn o'r angen i gynnal a datblygu gofal cartref ym Mhowys ymhellach. Dylai datblygiadau mewn gofal a alluogir gan dechnoleg ystyried amrywiaeth o anghenion llesiant pobl a risgiau unigrwydd ac ynysu. Nododd yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad welliannau pellach sy'n ofynnol ar gyfer y gwasanaeth ailalluogi, yn enwedig o ran cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia.

## **Canlyniad**

O ystyried y wybodaeth a gasglwyd gan ein gwaith dros y tair blynedd diwethaf, gan gynnwys siarad â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau ac ymgysylltu â'n partneriaid, rydym o'r farn bod Cyngor Sir Powys wedi gwneud cynnydd sylweddol.

Nid oes angen trefniadau monitro uwch mwyach. O ddyddiad y llythyr hwn, bydd ein trefniadau adolygu perfformiad a gwaith ymgysylltu â Chyngor Sir Powys yn dychwelyd i'n lefelau arferol o ymgysylltu.

Rydym am gydnabod y gwaith caled a'r penderfyniad a ddangosir gan uwch-arweinwyr a staff ar bob lefel i newid a gwella gwasanaethau ar gyfer pobl Powys. Hoffem hefyd ddiolch i bawb a hwylusodd ac a oedd yn rhan o'n harolygiad a'n gwaith adolygu drwy gydol y cyfnod hwn.

Yn gywir



Lou Bushell-Bauers

**Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol**

Arolygiaeth Gofal Cymru

CC.

Dr Caroline Turner – Prif Weithredwr, Cyngor Sir Powys

Cynghorydd Rosemarie Harris – Arweinydd, Cyngor Sir Powys

Cynghorydd Myfanwy Alexander – Deiliad portffolio Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Sir Powys

Cynghorydd Rachel Powell – Deiliad portffolio Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Powys

Dylan Owen – Pennaeth Comisiynu, Cyngor Sir Powys

Michael Gray – Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Sir Powys

Jan Coles – Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Powys

Jack Straw – Cadeirydd, Bwrdd Gwella a Sicrwydd

Philip Hodgson – Bwrdd Gwella a Sicrwydd

Alastair Davey – Dirprwy Gyfarwyddwr, Llywodraeth Cymru

Lisa Williams – Archwilio Cymru

Karen Newby Jones – Estyn

Becky Collier – AGIC